OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 713 (Cy. 170)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gofal ac Adolygu Achosion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Mehefin 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *30 Mehefin 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Gorffennaf 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan y darpariaethau yn Atodlen 1, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gofal ac Adolygu Achosion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Gorffennaf 2017.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso), yn y lle priodol mewnosoder y canlynol—

"mae i "corff partneriaeth" ("*partnership body*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 1(4) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

ystyr "y Rheoliadau Partneriaeth" ("*the Partnership Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**2**);

(**1**) O.S. 2007/307 (Cy. 26) ("Rheoliadau 2007"). Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2010/1700 (Cy. 161), rheoliad 9(3) ac O.S. 2016/216 (Cy. 85), rheoliad 7(6). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299). Diwygiwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2017/491 (Cy. 103).

mae i "rhiant" ("*parent*"), mewn perthynas â phlentyn sy'n rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(5) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

mae i "teulu" ("*family*"), mewn perthynas â phlentyn sy'n rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(3) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

ystyr "tîm integredig cymorth i deuluoedd" ("*IFS team*") yw tîm integredig cymorth i deuluoedd sydd wedi ei sefydlu gan gorff partneriaeth yn unol â'r Rheoliadau Partneriaeth(**3**);.".

(3) Yn rheoliad 4 (amser pan fo'n rhaid adolygu pob achos), ym mharagraff (3) hepgorer y geiriau "swyddog adolygu annibynnol yn cyfarwyddo hynny" a mewnosoder yr is-baragraffau a ganlyn—

"(a) swyddog adolygu annibynnol yn cyfarwyddo hynny, neu

(b) plentyn yn rhan o deulu y mae ei achos wedi ei gyfeirio at dîm integredig cymorth i deuluoedd a bod y teulu wedi ei hysbysu y bydd ei achos yn cael ei gefnogi gan y tîm hwnnw.".

(4) Yn rheoliad 6 (ystyriaethau y mae awdurdodau cyfrifol i roi sylw iddynt)—

(a) ailrifer y ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1);

(b) ar ôl paragraff (1) (fel y'i hailrifir), mewnosoder y paragraff a ganlyn—

"(2) Mae'r ystyriaethau ychwanegol y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi sylw iddynt wrth adolygu achos plentyn pan fo'r plentyn yn rhan o deulu sy'n cael ei gefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd wedi eu nodi yn Atodlen 5.".

(5) Yn rheoliad 8 (ymgynghori, cymryd rhan a hysbysu)—

(a) ym mharagraff (1), yn union cyn is-baragraff (d), hepgorer y gair "a" a mewnosoder yr is-baragraff a ganlyn—

"(cha) yn achos plentyn y mae ei deulu yn cael ei gefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, aelod o'r tîm hwnnw; a";

(b) ym mharagraff (3), yn union cyn is-baragraff (d), hepgorer y gair "a" a mewnosoder yr is-baragraff a ganlyn—

"(cha) yn achos plentyn y mae ei deulu yn cael ei gefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, aelod o'r tîm hwnnw; a".

(6) Ar ôl Atodlen 3 (ystyriaethau iechyd y mae awdurdodau cyfrifol i roi sylw iddynt), mewnosoder fel Atodlen 5(**4**) yr Atodlen a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

### Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3) (enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli), yn y lle priodol mewnosoder y canlynol—

"mae i "corff partneriaeth" ("*partnership body*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 1(4) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

(**3**) *Gweler* rheoliad 16 o'r Rheoliadau Partneriaeth (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd). Mae adrannau 166 i 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng pob bwrdd iechyd lleol a'r awdurdodau lleol o fewn ardal pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru i sefydlu corff partneriaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig mewn partneriaeth.

(**4**) Hepgorwyd Atodlen 4 i Reoliadau 2007 gan O.S. 2016/216 (Cy. 85), rheoliad 7(1) a (13).

(**5**) O.S. 2015/1335 (Cy. 126).

ystyr "y Rheoliadau Partneriaeth" ("*the Partnership Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**6**);

mae i "rhiant" ("*parent*"), mewn perthynas â phlentyn sy'n rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(5) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

mae i "teulu" ("*family*"), mewn perthynas â pherson sy'n rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(3) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

ystyr "tîm integredig cymorth i deuluoedd" ("*IFS team*") yw tîm integredig cymorth i deuluoedd sydd wedi ei sefydlu gan gorff partneriaeth yn unol â'r Rheoliadau Partneriaeth(**7**);.".

(3) Yn rheoliad 4 (adolygu cynlluniau)—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder y canlynol—

"(1A) Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth os yw'r person y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef yn rhan o deulu y mae ei achos wedi ei atgyfeirio at dîm integredig cymorth i deuluoedd a bod y teulu wedi ei hysbysu y bydd ei achos yn cael ei gefnogi gan y tîm hwnnw.".

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder y canlynol—

"(3) Mae'r ystyriaethau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw iddynt wrth adolygu cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth person pan fo'r person yn rhan o deulu sy'n cael ei gefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd wedi eu nodi yn yr Atodlen.".

(4) Ar ddiwedd y Rheoliadau mewnosoder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

## Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(**8**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y lle priodol mewnosoder—

"mae i "corff partneriaeth" ("*partnership body*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 1(4) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

ystyr "y Rheoliadau Partneriaeth" ("*the Partnership Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**9**);"; a

(b) yn lle'r diffiniad o "tîm integredig cymorth i deuluoedd" rhodder y canlynol—

"ystyr "tîm integredig cymorth i deuluoedd" ("*IFS team*") yw tîm integredig cymorth i deuluoedd sydd wedi ei sefydlu gan gorff partneriaeth yn unol â'r Rheoliadau Partneriaeth(**10**);".

(**6**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299). Diwygiwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2017/491 (Cy. 103).

(**7**) *Gweler* rheoliad 16 o'r Rheoliadau Partneriaeth (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd). Mae adrannau 166 i 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng pob bwrdd iechyd lleol a'r awdurdodau lleol o fewn ardal pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru i sefydlu corff partneriaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig mewn partneriaeth.

(**8**) O.S. 2015/1818 (Cy. 261).

(**9**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299). Diwygiwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2017/491 (Cy. 103).

(**10**) *Gweler* rheoliad 16 o'r Rheoliadau Partneriaeth (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd). Mae adrannau 166 i 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng pob bwrdd iechyd lleol a'r awdurdodau lleol o fewn ardal pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru i sefydlu corff partneriaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig mewn partneriaeth.

(3) Yn rheoliad 41 (ystyriaethau y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi sylw iddynt)—

(a) ym mharagraff (1) yn lle "mharagraff 1" rhodder "mharagraffau 1 i 17",

(b) ym mharagraff (2) yn lle "mharagraff 2" rhodder "mharagraffau 18 i 26",

(c) ar ôl paragraff (2) mewnosoder y paragraff a ganlyn—

"(3) Ym mharagraff (2) ac yn Atodlen 8—

mae i "teulu" ("*family*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(3) o'r Rheoliadau Partneriaeth(**11**).".

(4) Yn rheoliad 57 (addasiadau i Ran 2), ym mharagraff (4)(b) yn lle "rheoliad (5)" rhodder "rheoliad 7(5)".

(5) Yn Atodlen 8 (ystyriaethau y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi sylw iddynt wrth adolygu achos C), ar ôl paragraff 17 mewnosoder y canlynol—

"**18.** Manylion am unrhyw gynllun gofal neu gynllun triniaeth iechyd ar gyfer P.

**19.** Manylion am unrhyw gymorth neu wasanaethau a ddarperir ar gyfer P gan unrhyw berson.

**20.** Unrhyw newidiadau yng ngallu P i ofalu am blant, ac yn enwedig mewn perthynas ag C, o ganlyniad i'r gwasanaethau gofal iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir gan unrhyw berson, neu o ganlyniad i unrhyw ffactorau eraill.

**21.** Unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r teulu ers yr adolygiad diwethaf.

**22.** Unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol y tu allan i'r teulu sy'n berthnasol.

**23.** Unrhyw anawsterau y gall y teulu fod wedi eu cael wrth ymwneud â'r tîm integredig cymorth i deuluoedd.

**24.** A oes unrhyw wrthdaro rhwng anghenion C ac anghenion P, neu anghenion unrhyw aelod arall o aelwyd P, a sut y gellir datrys hyn.

**25.** Yr angen i baratoi i ddod â rhan y tîm integredig cymorth i deuluoedd i ben.

**26.** Ym mharagraffau 18 i 25—

Mae "P" i gael ei ddehongli fel pe bai'n gyfeiriad at "rhiant" o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(5) o'r Rheoliadau Partneriaeth.".

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

26 Mehefin 2017

(**11**) *Gweler* adran 197(1) i gael y diffiniad o "teulu" at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4), sy'n gymwys mewn perthynas â chyfeiriadau eraill at "teulu" yn Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015.

## ATODLEN 1

Y Rhaglith

### Darpariaethau sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru a arferir wrth wneud y Rheoliadau hyn

| *Y deddfiad sy'n rhoi pŵer* | |
| --- | --- |
| Deddf Plant 1989[(1)] | Adrannau 59(4)[(2)], 104(4)[(3)] ac Atodlen 6[(4)], paragraff 10(1) |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[(5)] | Adrannau 54(5) a (6), 83(5) a 196(2) |

**(1)** 1989 p. 41 ("Deddf 1989"). *Gweler* adran 105(1) o Ddeddf 1989 i gael y diffiniad o "prescribed".

**(2)** Mynegir bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 59 o Ddeddf 1989 i gael ei arfer gan yr "appropriate national authority", a'i ystyr, fel y'i diffinnir yn adran 59(7) o Ddeddf 1989 (sydd wedi ei mewnosod gan adran 39 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23) ("Deddf 2008") ac Atodlen 3, paragraff 23(6) iddi), o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru. Diwygiwyd yr adran hon hefyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14), Atodlen 4, paragraff 14(1) ac (8), a chan Ddeddf Plant 2004 (p. 31), adran 49(4). Mae diwygiadau eraill i'r adran hon nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**(3)** Diwygiwyd adran 104 o Ddeddf 1989 gan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 (p. 20), Atodlen 2, paragraff 10(a) a chan Ddeddf 2008, Atodlen 3, paragraff 25. Gwnaed diwygiadau eraill i'r adran hon nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**(4)** Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 10(1) o Atodlen 6 i Ddeddf 1989 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y ddarpariaeth hon wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Diwygiwyd Atodlen 6 i Ddeddf 1989 yn ôl eu trefn gan adrannau 116 a 117(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000, a pharagraff 14(1) a (25) o Atodlen 4 ac Atodlen 6 iddi. Mae diwygiadau eraill i'r ddarpariaeth hon nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**(5)** *Gweler* adran 197(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) ("Deddf 2014") i gael y diffiniad o "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd" a "rheoliadau".

## ATODLEN 2

Rheoliad 2

## "ATODLEN 5

Rheoliad 6

### Ystyriaethau ychwanegol y mae'n rhaid i awdurdodau cyfrifol roi sylw iddynt pan fo rhan gan dîm integredig cymorth i deuluoedd

**1.** Manylion o unrhyw gynllun gofal neu gynllun triniaeth iechyd ar gyfer rhiant.

**2.** Manylion o unrhyw gymorth neu wasanaethau a ddarperir i riant gan unrhyw berson.

**3.** Unrhyw newidiadau yng ngallu rhiant i rianta o ganlyniad i'r gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir, neu o ganlyniad i unrhyw ffactorau eraill.

**4.** Unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r teulu ers yr adolygiad diwethaf.

**5.** Unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol y tu allan i'r teulu sy'n berthnasol.

**6.** Unrhyw anawsterau y gall y teulu fod wedi eu cael wrth ymwneud â'r tîm integredig cymorth i deuluoedd.

**7.** A oes unrhyw wrthdaro rhwng anghenion y plentyn ac anghenion rhiant, neu anghenion unrhyw aelod arall o'r teulu, a sut y gellir datrys hyn.

**8.** Yr angen i baratoi i ddod â rhan y tîm integredig cymorth i deuluoedd i ben. ".

## ATODLEN 3

Rheoliad 3

## "YR ATODLEN

Rheoliad 4

Ystyriaethau y mae'n rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddynt wrth adolygu cynllun pan fo rhan gan dîm integredig cymorth i deuluoedd

**1.** Manylion unrhyw gynllun gofal neu gynllun triniaeth iechyd ar gyfer rhiant.

**2.** Manylion unrhyw gymorth neu wasanaethau a ddarperir i riant gan unrhyw berson.

**3.** Unrhyw newidiadau yng ngallu rhiant i rianta o ganlyniad i'r gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir, neu o ganlyniad i unrhyw ffactorau eraill.

**4.** Unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r teulu ers yr adolygiad diwethaf.

**5.** Unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol y tu allan i'r teulu sy'n berthnasol.

**6.** Unrhyw anawsterau y gall y teulu fod wedi eu cael wrth ymwneud â'r tîm integredig cymorth i deuluoedd.

**7.** A oes unrhyw wrthdaro rhwng anghenion y plentyn ac anghenion rhiant, neu anghenion unrhyw aelod arall o'r teulu, a sut y gellir datrys hyn.

**8.** Yr angen i baratoi i ddod â rhan y tîm integredig cymorth i deuluoedd i ben.".

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i dair set o Reoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cynllunio ac adolygu'r ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer personau o dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

Mae'r diwygiadau yn gwneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae rhaid i awdurdodau lleol ac awdurdodau cyfrifol eraill adolygu achosion personau sy'n rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd.

Mae adrannau 166 i 169 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng pob bwrdd iechyd lleol a'r awdurdodau lleol sy'n dod o fewn ôl troed daearyddol pob bwrdd iechyd i sefydlu corff partneriaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig. Mae timau integredig cymorth i deuluoedd wedi eu sefydlu fel rhan o'r trefniadau hynny i ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n cael eu hatgyfeirio atynt, yn unol â rheoliadau 16 a 17 o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, (a wneir o dan adrannau 166 i 168 o Ddeddf 2014).

Mae rheoliad 2 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007 ac yn mewnosod Atodlen newydd, sef Atodlen 5 yn y Rheoliadau hynny i wneud darpariaeth ynghylch yr ystyriaethau ychwanegol y mae rhaid i awdurdodau cyfrifol o dan y Rheoliadau hynny roi sylw iddynt wrth adolygu achos plentyn y mae ei deulu yn cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd.

Mae rheoliad 3 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015 ac yn mewnosod Atodlen i wneud darpariaeth ynghylch yr ystyriaethau y mae rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddynt wrth adolygu cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth person pan fo'r person yn rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd.

Mae rheoliad 4 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") ac yn mewnosod darpariaeth newydd o fewn Atodlen 8 i Reoliadau 2015 (ystyriaethau y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi sylw iddynt wrth adolygu achos C) er mwyn ychwanegu ystyriaethau ychwanegol y mae rhaid i awdurdod roi sylw iddynt wrth adolygu achos plentyn y mae ei deulu yn cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd.

Mae rheoliad 4(4) hefyd yn cywiro gwall yn rheoliad 57 o Reoliadau 2015.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.